## 3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

i) Cydymdeimlwyd â'r Cynghorydd Dilwyn Lloyd ar farwolaeth ei frawd yng nghyfraith ac ewythr.

Safodd y Cyngor fel arwydd o barch.

ii) Llongyfarchwyd Ysgol Dyffryn Ogwen ar ganlyniad eu harolwg Estyn, sef rhagorol am y ddau brif fynegydd, rhagorol am berfformiad a rhagorol am ragolygon gwella. Hon yw'r ysgol uwchradd gyntaf yng Ngogledd Cymru i gael rhagorol ddwywaith dan drefniadau arolygu newydd Estyn.

iii) Anfonwyd copi o'r Cynllun y Gymraeg mewn Addysg i bob aelod gan yr Adran Addysg a thynnwyd sylw'r aelodau at y cynllun gan y Cynghorydd Sian Gwenllian, Aelod Cabinet Addysg a Phlant a Phobl Ifanc.

iv) Derbyniwyd gwybodaeth diwedd yr wythnos yn cadarnhau bod y Gweinidog wedi cytuno i ryddhau arian y Cytundeb Canlyniadau, sef £1.3m i Wynedd rhag blaen yn seiliedig ar berfformiad 2011/12. 'Roedd hyn yn newydd da iawn i'r Cyngor ac mae lle i ddiolch i bawb sydd wedi gweithio'n galed iawn i sicrhau'r dyfarniad yn llawn, o ran cyflawni a'r monitro.

v) Tynnodd sylw'r aelodau at y Seminar ar Gyfrifiad yr Iaith Gymraeg a gynhelir ar fore 20 Mawrth 2013.

## 4. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL

Adroddwyd y derbyniwyd ymatebion gan y Gwir Anrhydeddus Simon Burns AS, Gweinidog Gwladol yn yr Adran Drafnidiaeth a Mr Alun Ffred Jones AC, mewn ymateb i Rybudd o Gynnig y Cynghorydd Stephen Churchman ynglyn â uwchraddio rheilffyrdd Gogledd Cymru.

## 5. CWESTIWN

**Cwestiwn gan y Cynghorydd Gareth Thomas**

"Mae gwerthiant cig yn amlwg yn bwnc sydd yn sylw'r cyhoedd ar hyn o bryd. All y Cyngor gadarnhau pa brosesau a ddefnyddir ar gyfer caffael cig a bwydydd eraill ar gyfer cartrefi preswyl pobl hŷn, ysgolion a chanolfannau eraill a reolir gan y Cyngor? Pa drefniadau mewnol sydd gan y Cyngor i sicrhau bod safon y bwyd sydd yn cael ei gyflawni o radd derbyniol?"

**Ateb gan y Cynghorydd Paul Thomas, Aelod Cabinet Gwynedd Iach**

"Mae bob Ysgol a chartref preswyl sydd ynghlwm a chytundeb arlwyo'r adran darparu yn derbyn cig ffresh gan ddau gyflenwr lleol yn unig. Mae llythyrau gan y ddau gyflenwr wedi cyrraedd yr adran yn cadarnhau nad oes unrhyw gyswllt i gig ceffyl ganddynt a bod bob darn o gig sydd yn

cyrraedd ceginau'r Cyngor efo gwybodaeth arno ar ffurf 'barcode' sydd yn ein galluogi i ddilyn taith y cig yn ôl i'r fferm lle gafodd ei fagu. Mae'r adran hefyd wedi derbyn llythyr gan gwmni Apetito sydd yn arlwyo prydau wedi eu rhewi i Wasanaethau Cymdeithasol yn cadarnhau bod eu prydau nhw hefyd yn cael eu paratoi o gigoedd fresh, a'u bod nhw wedi profi eu cynnyrch cig eidion ar y 29ain o Ionawr. Mae'r canlyniadau yn dangos bod 100% o'u cynnyrch yn glir o gig ceffyl.

Mae safonau masnach wedi cysylltu â'r adran darparu yn ddiweddar ac maen nhw'n fodlon iawn efo safonau'r bwyd mae'r cyngor yn arlwyo.

Does dim bwydydd sydd wedi prosesu na rhai sydd wedi eu paratoi yn barod yn cael eu defnyddio yng ngheginau'r Cyngor gan mai dim ond cigydd ffres o gwmnïau lleol sy'n cael ei baratoi a'i arlwyo yn ein safleoedd. Nid oes unrhyw fwydlen wedi newid, nag unrhyw eitem wedi ei dynnu nôl oddi ar unrhyw raglen fwyd gan fod yr adran yn ddigon hyderus o safon y cynnyrch.

Mae pob ysgol gynradd efo bwydlen sydd wedi ei osod o wythnos i wythnos ac sy'n sicrhau bod bob plentyn sydd yn derbyn cinio ysgol yn cael o leiaf un pryd maethlon bob dydd. Mae prynu cynnyrch lleol yn costio ychydig yn fwy na sympiau o gynnyrch o Loegr, ond mae wedi galluogi'r adran i sicrhau prydau maethlon o safon sydd gyda dim byd ond y cynnyrch disgwyliedig ynddo."

**6. MATERION I'W PENDERFYNU GAN Y CYNGOR**

**Cabinet – 19 Chwefror 2013**

**a) Cyllideb 2013/14 a Strategaeth Ariannol 2013/14 – 2016/17**

i) Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan yr Aelod Cabinet Adnoddau.

Nododd bod y broses o sefydlu cyllideb flynyddol yn un gymhleth a hirfaith. Cyfeiriodd at y sesiynau esbonio a gynhaliwyd yn ddiweddar pryd y gwahoddwyd holl aelodau'r Cyngor i'w mynychu.

Parthed y Strategaeth Ariannol, mae'r Cyngor hwn yn unol ag ymarfer gorau yn sefydlu'r gyllideb flynyddol yng nghyd-destun y strategaeth ariannol, tymor canolig er mwyn sicrhau bod y gyllideb yn paratoi ar gyfer sefyllfaoedd i ddod yn hytrach na chyfarch anghenion un flwyddyn yn unig. Nododd mai cynllunio ymlaen yw nôd y Cyngor.

O ran y sefyllfa tros y bedair blynedd nesaf, dylid cynllunio i ddarganfod y bwlch ariannol o tros £32m, drwy gynllunio i gynyddu'r Dreth Gyngor ar gyfartaledd o 3.5% y flwyddyn fyddai'n darparu oddeutu £8m ar ben yr £8.7m o arbedion a gynlluniwyd eisoes ar eu cyfer. Anelir i ddarganfod y gweddill drwy osod targed effeithlonrwydd pellach o £6.4m a cheisio gwyro galw am wasanaethau'r Cyngor drwy fod yn rhagweithiol i osgoi creu galw am y gwasanaethau hynny gyda golwg ar ddarganfod £5m pellach. Gyda tebygolrwydd y byddai'n rhaid i'r gweddill ddod o doriadau, os na godir y Dreth Gyngor eleni, yna bydd angen gwneud toriadau anorfod.

Tynnodd sylw at argymhellion y Cabinet sy'n nodi cynnydd o 3.5% yn Nhreth y Cyngor ar cyfer 2013/14 a gofynnodd i'r Cyngor fabwysiadu'r argymhellion hyn.

ii) Gwahoddwyd aelodau i gyflwyno sylwadau.

a) Nododd aelod bod chwyddiant oddeutu 2.5% ar hyn o bryd a bod costau byw yn gyffredinol yn cynyddu. Cyfeiriodd at gymal yn yr adroddiad sy'n nodi y bydd rhai cynghorau yng Nghymru'n cynyddu'r Dreth Gyngor llai na 3.5% ond yn yr un modd mae yna son yn y wasg yn ddiweddar am gynghorau sydd am gynyddu'r Dreth Gyngor llawer uwch, ac mae modd i'r Cyngor hwn wneud y naill neu'r llall os mai dyna yw ei ddymuniad. Tynnodd sylw bod dau Gyngor cyfagos yn pennu treth uwch na'r Cyngor hwn ac ambell i Gyngor arall yn rhewi'r dreth. Y codiad ar gyfartaledd trwy Gymru yw 2.5%. Deellir bod gan y Cyngor ddigon o falansau wrth gefn. Cynigiodd welliant sef y dylid rhewi'r Dreth Gyngor am 2013/14 a defnyddio'r £1.77m o falansau wrth gefn y Cyngor. Eiliwyd y cynnig.

Mewn ymateb, hysbysodd Dilwyn Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol os na chodir y Dreth Gyngor, yna yn anorfod byddai hyn yn ychwanegu at gyfanswm y toriadau y byddai'n rhaid eu darganfod gan mai am gyfnod cyfyngedig yn unig y byddai modd parhau i dddefnyddio balansau. Yr unig ddewis arall fyddai cynyddu'r Dreth Gyngor yn fwy fyth ar ôl 2013/14, ond 'roedd gallu'r Cyngor i wneud hynny'n gyfyngedig. Nododd bod saith Cyngor arall yng Nghymru gyda chodiad uwch yn y dreth a bod y cyfartaledd yn debygol o fod tros 3%. Nid yw defnyddio balansau yn ffordd o osgoi toriadau.

b) Datganodd aelod bryder am effaith y toriadau ac 'roedd yn bryderus y byddai pobl fregus yn dioddef. 'Roedd yn cefnogi'r cynnydd o 3.5% yn y Dreth Gyngor.

c) Nododd aelod y byddai cynyddu'r Dreth Gyngor yn sicr o effeithio ar fusnesion Gwynedd.

ch) Nododd aelod arall ei bryder os y defnyddir y balansau i leihau'r cynnydd yn y dreth a'i bod yn bwysig gwarchod gwasanaethau.

d) Cyfeiriodd aelod at bobl sydd ar gyflogau isel ac y byddai cynyddu'r dreth yn sicr o effeithio arnynt.

dd) Nododd aelod bod 7% o drigolion Gwynedd yn derbyn budd-daliadau

e) Nododd aelod bod 38% o gartrefi Gwynedd yn dioddef tlodi tanwydd. 'Roedd dyletswydd ar y Cyngor i geisio gwarchod pobl Gwynedd. 'Roedd yn cefnogi'r awgrym i rewi'r Dreth Gyngor am 2013/14.

f) Cynigiodd aelod arall welliant pellach sef y dylid cynyddu'r Dreth Gyngor 2.5% ac eiliwyd y cynnig.

ff) 'Roedd aelod o'r farn y dylid cyfarwyddo pobl sut i geisio am fudd-dâl treth ac y dylid lledaenu'r wybodaeth ar gyfer trigolion Gwynedd.

g) Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed nifer staff y Cyngor sy'n derbyn cyflog a budd-dal, hysbysodd Dilwyn Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol nid yw'r ffigurau ar gael ganddo.

ng) Hysbysodd yr Aelod Cabinet Adnoddau ymhellach mai 13% ac nid 7% o drigolion Gwynedd sy'n derbyn budd-daliadau llawn gyda 5% yn derbyn budd-dâl rhannol. Nododd bod y dreth ystafell wely'n effeithio ar 1,350 o drigolion Gwynedd. Cydnabu bod gan y Cyngor gyfrifoldeb am drethdalwyr Gwynedd.

Yn unol â rheol gweithdrefn 19(6), cofnodwyd y bleidlais ganlynol ar y gwelliant sef y dylid rhewi'r Dreth Gyngor am 2013/14 a defnyddio'r £1.77m o falansau wrth gefn y Cyngor.

**O blaid: (23)** Y Cynghorwyr Endaf Cooke, Anwen Davies, Eddie Dogan, Tom Ellis, Gweno Glyn, Simon Glyn, Alwyn Gruffydd, John B. Hughes, Louise Hughes, Jason Humphreys, Aeron Jones, Llywarch Bowen Jones, Sion W. Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, Christopher O'Neal, Nigel Pickavance, Peter Read, Elfed Williams, Gruffydd Williams, Owain Williams, R.J. Wright.

**Yn erbyn: (46)** Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Lesley Day, Gwynfor Edwards, Dyfed Edwards, Elwyn Edwards, Huw Edwards, Trevor Edwards, Alan Jones Evans, Aled Ll. Evans, Jean Forsyth, Gwen Griffith, Selwyn Griffiths, Sian Gwenllian, Annwen Hughes, Peredur Jenkins, Anne Ll. Jones, Brian Jones, Charles W. Jones, Dyfrig Jones, Elin Walker Jones, John W, Jones, Linda W. Jones, June Marshall, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dewi Owen, Michael Sol Owen, W. Roy Owen, W. Tudor Owen, John P. Roberts, Liz Saville Roberts, W. Gareth Roberts, Mair Rowlands, Angela Russell, Mike Stevens, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Paul Thomas, Ann Williams, Eirwyn Williams, Gethin G. Williams, Hefin Williams, John W. Williams, R.H. Wyn Williams, Mandy Williams-Davies.

**Atal pleidlais: (1)** Y Cynghorydd Eric M. Jones

**(b) Rhan o ardal y Cyngor - Cymuned -**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Aberdaron | 520.26 | Llanegryn | 146.57 |
| Aberdyfi | 927.98 | Llanelltyd | 280.16 |
| Abergwyngregyn | 113.35 | Llanengan | 1,922.98 |
| Abermaw | 1,088.97 | Llanfair | 306.87 |
| Arthog | 606.52 | Llanfihangel y Pennant | 204.16 |
| Bala | 728.82 | Llanfrothen | 206.51 |
| Bangor | 3,521.77 | Llangelynnin | 391.95 |
| Beddgelert | 306.40 | Llangywair | 127.96 |
| Bethesda | 1,605.41 | Llanllechid | 323.58 |
| Betws Garmon | 129.98 | Llanllyfni | 1,334.78 |
| Bontnewydd | 423.69 | Llannor | 882.59 |
| Botwnnog | 421.62 | Llanrug | 1,077.73 |
| Brithdir a Llanfachreth | 388.54 | Llanuwchllyn | 306.38 |
| Bryncrug | 325.48 | Llanwnda | 746.28 |
| Buan | 224.49 | Llanycil | 180.39 |
| Caernarfon | 3,384.74 | Llanystumdwy | 839.03 |
| Clynnog Fawr | 425.88 | Maentwrog | 270.74 |
| Corris | 287.07 | Mawddwy | 323.00 |
| Criccieth | 901.66 | Nefyn | 1,358.67 |
| Dolbenmaen | 590.57 | Pennal | 208.55 |
| Dolgellau | 1,169.05 | Penrhyndeudraeth | 736.45 |
| Dyffryn Ardudwy | 778.29 | Pentir | 950.10 |
| Ffestiniog | 1,644.51 | Pistyll | 233.83 |
| Harlech | 725.46 | Porthmadog | 1,931.75 |
| Llanaelhaearn | 418.54 | Pwllheli | 1,643.91 |
| Llanbedr | 310.12 | Talsarnau | 297.94 |
| Llanbedrog | 677.40 | Trawsfynydd | 491.21 |
| Llanberis | 739.78 | Tudweiliog | 439.67 |
| Llanddeiniolen | 1,754.33 | Tywyn | 1,512.45 |
| Llandderfel | 480.97 | Waunfawr | 559.56 |
| Llandwrog | 967.43 | Y Felinheli | 1,026.63 |
| Llandygai | 955.64 | Y Ganllwyd | 81.45 |

**sef y symiau a gyfrifwyd fel symiau Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.**

**3) Bod y symiau a ganlyn yn cael eu pennu yn awr gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2013/2014 yn unol ag Adrannau 32 i 36 o'r Ddeddf.**

**(a) £352,081,970** **Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(2)(a) i (e) o'r Ddeddf.**

v) Nododd aelod y gwneir arbedion o £110,000 y flwyddyn i'r Cyngor yn sgîl yr ailstrwythuro hwn.

**PENDERFYNWYD derbyn argymhellion y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion a nodir uchod, a mabwysiadu'r datganiad polisi tâl yn Atodiad 1 o'r adroddiad ar gyfer 2013/14.**

**14. RHYBUDD O GYNNIG**

a) Cyflwynwyd adroddiad y Cynghorydd R.H. Wyn Williams, Aelod Cabinet Gofal, mewn ymateb i rybudd o gynnig ynglyn â gofal iechyd yng Ngogledd Cymru.

b) Cyflwynodd yr aelodau y sylwadau canlynol -

- Bod staff Ysbyty Coffa Blaenau Ffestiniog yn bryderus iawn am ddyfodol eu swyddi yn wyneb y penderfyniad i gau'r ysbyty ym mis Mai 2013.
- Bod Ysbyty Alltwen yn llawn a sonnir am roddi chwe gwely ychwanegol yno.
- Pryder am symud pobl allan o'u cynefin.
- Pryder mai'r gwasanaethau cymdeithasol fyddai'n gorfod wynebu cost y newidiadau trwy ragor o alw arnynt.
- Pryder am ddyfodol y gwasanaeth pelydr x yn Ysbyty Dolgellau.
- Y dylid erfyn ar y Cyngor Iechyd Cymuned i ofyn i'r Bwrdd Iechyd beidio gweithredu'r cynlluniau hyd nes y byddant yn gallu ymateb i'r pryderon.
- Bod yr offer pelydr x yn Ysbyty Coffa Blaenau Ffestiniog yn weddol newydd ac mai gwastraff arian fyddai gwneud i ffwrdd â'r gwasanaeth yno.
- Bod y Bwrdd Iechyd yn aros am benderfyniad gan Lywodraeth Cymru ynglyn â'r achos busnes a gyflwynwyd mewn perthynas â datblygiad Ysbyty Tywyn ac y dylid pwyso am ddyddiad dechrau'r gwaith.
- Y dylid annog y Bwrdd Iechyd i ailedrych ar eu cynlluniau er mwyn cadw'r gwasanaethau yn yr ardaloedd.
- Y dylai'r Cynghorwyr Linda W. Jones a Peter Read fod yn rhan o unrhyw ddirprwyaeth i gyfarfod cynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd.
- Bod y staff nyrsio yn Ysbyty Tywyn yn bryderus am ddyfodol eu swyddi.
- Y gwrthwynebir y bwriad i gau'r uned pelydr x yn Ysbyty Tywyn.
- Y croesewir y swm o £4m rhaglen gyfalaf ar gyfer datblygu safle Ysbyty Coffa Blaenau Ffestiniog ond deellir fodd bynnag na dderbynnir rhagor o gleifion i'r ysbyty o heddiw ymlaen. 'Roedd angen gwybodaeth gan y Bwrdd Iechyd o'r amserlen i weithredu'r swm o £4m.
- Bod angen gwybodaeth rhagblaen lle y bwriedir symud yr 11 o gleifion o Ysbyty Coffa Blaenau Ffestiniog.

**PENDERFYNWYD bod yr Aelod Cabinet Gofal i gyfleu'r sylwadau uchod i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.30 p.m. a daeth i ben am 5.45p.m.

**CADEIRYDD**

- Nifer o aelodau newydd yn dilyn etholiadau Mai 2012

4. Mae'r tabl isod yn eich atgoffa o'r hyn a adroddwyd i'r Cyngor ar y 4ydd o Hydref, 2012, ac yn cynnwys diweddaridad o'r sefyllfa gyfredol yng nghyd-destun y datblygiadau. Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cyngor hefyd yn cynnwys darn am y gefnogaeth i aelodau'r Cabinet. Nid ydym wedi cynnwys hynny yn yr adroddiad hwn gan mai prif gyfrifoldeb y Pwyllgor yw'r gefnogaeth a roddir i'r aelodau hynny oddi allan i'r Cabinet.

**A. Beth yw'r gefnogaeth sydd ar gael i sicrhau cyfathrebu effeithiol?**

| Cyf | Beth i'w ddisgwyl? | Sut? | Gan bwy? | Diweddariad Ebrill 2013 |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| 1 | Cymorthfeydd – Cyfarfodydd un i un gydag Aelod Cabinet fel bo cyfle i aelodau godi cwestiynnau a derbyn diweddariadau. | Bwriedir cynnal peilot i asesu a yw'r syniad o gymorthfeydd am wella cyfathrebu rhwng aelodau'r Cabinet ac aelodau anweithredol. | Bydd Tim y Cabinet yn gyfrifol am drefnu'r cymorthfeydd ac apwyntiadau,. Yr Aelod Cabinet fydd â chyfrifoldeb am gofnodi unrhyw faterion gweithredu o'r cyfarfod. | Mae rhai aelodau o'r Cabinet wedi cynnal cymorthfeydd, rhai ohonynt yn yr ardaloedd, ond nid yw'r gwaith o asesu eu llwyddiant eto wedi digwydd. Bydd hyn yn cael ei raglennu i ddigwydd dros y misoedd nesaf. |
| 2 | Gweithdai Gwybodaeth / Ymgynghorol ar bynciau penodol i aelodau sydd â diddordeb yn y | Cyfle i gyflwyno gwybodaeth a / neu ymgysylltu gydag aelodau etholedig ar bynciau penodol. | Y Cabinet – Aelod Cabinet gyda chymorth gan y Penaethiaid Gwasanaeth. | Cynhaliwyd nifer o weithdai wrth baratoi'r Cynllun Strategol ac hefyd y Strategaeth Ariannol. Bu adborth anffurfiol oddi wrth aelodau a fynychodd y gweithdai yn ffafriol a byddwn yn gwau rhagor o gyfleoedd tebyg i mewn i'r rhaglen dros y flwyddyn i ddod. |

| Cyf | Beth i'w ddisgwyl? | Sut? | Gan bwy? | Diweddariad Ebrill 2013 |
|---|---|---|---|---|
| | maes. | | | |
| 3 | Pencampwyr – mae swydd ddisgrifiad yn bodoli ar gyfer pencampwyr. | Mae'r Cabinet wedi derbyn swydd-ddisgrifiad safonol i'r rol Pencampwr ac wedi penodi tri gyda'r gweddill i'w penodi cyn diwedd Medi | Aelod Cabinet i benodi aelod o'r tu allan i'r Cabinet. | Bellach penodwyd chwech pencampwr -<br><br>Pobl hyn – Gareth Thomas<br>Gofalwyr – Eryl Jones-Williams<br>Anabledd – Peter Read<br>Awtistiaeth – Elin Walker Jones<br>Llais Plant a Phobl Ifanc – Mair Rowlands<br>Atal Tlodi – Brian Jones |
| 3b | Cynulliadau Ardal | | | Cafwyd penderfyniad unfrydol yn y Cyngor y bydd pedwar cynulliad ardal yn cael eu sefydlu i gychwyn ar eu gwaith fis Mai. |
| 4 | Gwybodaeth yn electroneg i aelodau etholedig. Sicrhau fod aelodau etholedig yn gallu derbyn gwybodaeth yn electroneg yn hwylus drwy ddarpariaeth symudol y llechen. | a) Peilot darpariaeth symudol – llechen – i'w gynnal am gyfnod gan aelodau'r Cabinet Bydd yr aelodau yn gallu derbyn e-byst, mynediad i'w calendr, a mynediad i ddogfennaeth gyhoeddus ar y we. Mynediad i ddogfennaeth gyfrinachol drwy e-byst.<br>b) Mae'r gwaith o ddatblygu porth gwybodaeth a fyddai'n | Cyfrifoldeb y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Mewnbwn ar yr ochor dechnegol gan yr Uwch Reolwr - TG a Thrawsnewid Busnes. Mewnbwn o ran anghenion a gwybodaeth i'w gyd-gordio gan yr Adran Strategol a Gwella. | Llwyddwyd i sicrhau fod pob aelod etholedig wedi derbyn y cynnig a'r cyfle os oeddent yn dymuno i dderbyn cyfarpar electroneg (i-pad) ac hyffoddiant sylfaenol ar sut i'w ddefnyddio, ynghyd â sesiwn pellach ar sut i wneud gwell defnydd o'r i-pad wedi ei gynnal.<br><br>Bellach, mae bron i 70 o'r 75 aelod wedi derbyn i-pad i'w cynorthwyo gyda'u gwaith fel aelod etholedig, ac mae nifer sylweddol yn eu defnyddio fel eu prif ddull cyfathrebu, ac yn adrodd eu bod yn derbyn gwybodaeth yn llawer mwy hwylus ac amserol trwy'r dechnoleg newydd.<br><br>Mae'r datblygiad gyda'r Porth Gwybodaeth wedi gorfod cael ei atal am gyfnod, ond mae'n parhau |

| Cyf | Beth i'w ddisgwyl? | Sut? | Gan bwy? | Diweddariad Ebrill 2013 |
|---|---|---|---|---|
| | | fan i 'ddal' yr holl wybodaeth berthnasol yn gorfod newid yn sgil anawsterau diweddar. | | i fod yn ddyhead gennym i ddatblygu i'r dyfodol, yn ddibynol ar ddatblygiadau technegol o'r newydd.<br><br>Noder nad yw'r datblygiad wedi bod mor sydyn a di-broblem ag a ragdybiwyd gan fod amserlen wedi llithro, a'n bod wedi gorfod parhau gyda dosbarthu gwybodaeth yn electroneg ac ar gopiau caled am beth amser. Copiau electroneg yn unig fydd yn cael eu rhannu o hyn allan, ag eithrio i'r aelodau etholedig hynny sydd heb ddarpariaeth i-pad neu yn gwneud cais penodol i dderbyn copiau papur.<br><br>Noder hefyd bod rhai problemau wedi bod gydag ambell gyfrif, ac mae'n hanfodol i aelodau gysylltu gyda'r arbennigwyr Technoleg Gwybodaeth i geisio ateb i'r rhwystrau iddynt hwy ac i'w cyd-aelodau. Cyfrifoldeb yr aelodau etholedig yw cysylltu gyda'r ddesg gymorth Technoleg Gwybodaeth ar 01286 679114.<br><br>Bydd yn angenrheidiol symud ymlaen yn awr i adnabod y briff ar gyfer datblygiadau dros y misoedd nesaf. |
| 5 | Bwletinau Gwybodaeth gan Aelodau Cabinet – | a) Bwletinau gwybodaeth gan y Cabinet fel corff yn fisol i ddiweddaru yr | a) Bydd Tim y Cabinet yn cynorthwyo o ran gwybodaeth a | Cafwyd trafodaethau helaeth, gydag aelodau a swyddogion, i gytuno ar ffurf y bwletin a bellach disgwylir iddo gyfarch pedwar pennawd sef<br>➢ Gwybodaeth am yr hyn mae'r Cabinet neu |

| Cyf | Beth i'w ddisgwyl? | Sut? | Gan bwy? | Diweddariad Ebrill 2013 |
|---|---|---|---|---|
| | bwletinau byr. Ffocws ar waith datblygol. | holl aelodau o'r hyn y mae'r Cabinet wedi ei gyflawni.<br>b) Bwletinau Gwybodaeth gan Aelod Cabinet yn unigol yn crynhoi yr hyn sy'n digwydd yn y maes penodol, yn ôl yr angen. | gweinyddu.<br><br>b) Cyfrifoldeb yr aelod unigol, gyda'r cymorth gweinyddol a chymorth o ran gwybodaeth i ddod gan y Pennaeth Gwasanaeth. | aelodau unigol y Cabinet yn ei wneud<br>➢ Gwybodaeth am faterion cefnogi aelodau (hyfforddiant ayb)<br>➢ Gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd yn ehangach o fewn y Cyngor (newyddion diweddaraf/datganiadau i'r wasg)<br>➢ Gwybodaeth am faterion o fewn wardiau (gwaith ffordd / gwaredu eiddo ayb)<br><br>Cyhoeddwyd y rhifyn cyntaf ar 19eg Ebrill, ac mae'n un arf werthfawr i gyfarch anghenion aelodau am wybodaeth ac yn gyfle i'r Cyngor weithredu mewn ffordd gynhwysol.<br><br>Bydd gwerth y bwletin i aelodau yn cael ei asesu yn ystod y flwyddyn. |
| 6 | <u>Adroddiadau Aelodau'r Cabinet i'r Cyngor</u> | 3 Aelod o'r Cabinet yn adrodd ym mhob cyfarfod o'r Cyngor. | Aelodau Cabinet gyda chymorth y Rheolwyr Gwireddu. | Cychwynnwyd ar y drefn o gael aelod o'r Cabinet yn adrodd ar elfen o'i waith ymhob cyfarfod o'r Cyngor gyda chyfle i aelodau ofyn cwestiynau. Eisoes cafwyd y cyflwyniadau canlynol:<br>Cyngor mis Rhagfyr - y Cynghorydd Sian Gwenllian (heriau yn y maes addysg)<br>Cyngor mis Ionawr – y Cynghorydd Brian Jones (newidiadau yn y gyfundrefn les)<br>Cyngor mis Chwefror – y Cynghorydd R H Wyn Williams (datblygiadau ym maes gofal) |

| Cyf | Beth i'w ddisgwyl? | Sut? | Gan bwy? | Diweddariad Ebrill 2013 |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Bwriedir parhau gyda'r drefn dros yr ychydig cyfarfodydd nesaf ac yna asesu'r gwerth. |
| 7 | Cyfarfodydd rhwng Cadeiryddion Craffu a'r Cabinet | Protocol ar natur y berthynas er mwyn trafod a hwyluso rhyngweithio yn cael ei drafod.<br>Cynhelir cyfarfodydd dwy waith y flwyddyn rhwng aelodau'r Fforwm Cadeiryddion Craffu â'r Cabinet | Fforwm Cadeiryddion Craffu a'r Cabinet. | Hyd yma cynhaliwyd dau gyfarfod rhwng Fforwm Cadeiryddion Craffu a'r Cabinet, sef diwedd Medi 2012 ac Ebrill 2013, ac maent wedi bod o fudd i'r holl aelodau. Sefydlwyd protocol ar natur y berthynas rhwng Craffu a Chabinet, gan sicrhau parch a chyd-weithio er mwyn sicrhau cyflawni'r gorau i drigolion Gwynedd. Mae'r trafodaethau wedi bod yn agored ac adeiladol i asesu cynnydd hyd yma a rhannu gwersi a ddysgwyd gan y Craffwyr a'r Cabinet. |

**B. Beth yw'r gefnogaeth benodol sydd ar gael i aelodau etholedig gyflawni eu rolau penodol?**

| | Beth i'w ddisgwyl? | Sut? | Gan bwy? | Diweddariad Ebrill 2013 |
|---|---|---|---|---|
| 8 | Gwybodaeth amserol ar ddatblygiadau neu ymgynghoriadau ar ddatblygiadau yn ardal lleol aelod etholedig. | Aelod Cabinet a Phenaethiaid Gwasanaeth i geisio adnabod pan fo gwaith penodol neu ddatblygiadau ar y gweill mewn unrhyw faes yn ward yr aelod lleol a chysylltu â'r aelod etholedig yn amserol i adael iddynt | Aelod Cabinet, Pennaeth Gwasanaeth neu unrhyw Arweinydd Prosiect penodol. | Gweler y sylwadau uchod am y Bwletin Gwybodaeth. |

| | Beth i'w ddisgwyl? | Sut? | Gan bwy? | Diweddariad Ebrill 2013 |
|---|---|---|---|---|
| | | wybod am hynny. | | |
| 9 | Ymateb i ymholiadau neu gwynion gan Aelod Lleol. | Aelod Lleol i gysylltu yn y lle cyntaf gyda'r gwasanaeth penodol i geisio ateb i'r ymholiad. Os na cheir ymateb digonol, yna dylid cyfeirio'r mater penodol at sylw'r Aelod Cabinet perthnasol ar gyfer sicrhau ymateb. | Cyfrifoldeb ar yr aelod lleol i ddilyn y camau cywir er mwyn sicrhau ymateb. | Mae'r drefn yma eisoes mewn lle ond nid oes gwybodaeth fanwl ynglyn â pha mor aml mae'n cael ei gweithredu. Cafwyd rhai enghreifftiau o aelodau yn lleisio eu cwynion yn y wasg cyn dilyn y drefn hon a bu trafodaeth ar hynny yn y Grwp Busnes ar 18 Chwefror 2013.<br><br>Erfynnir ar aelodau i ddefnyddio'r cyfundrefnau priodol yn y lle cyntaf gan bod hynny'n fwy tebygol o arwain at ddatrysiad i'r ymholiad. |
| 10 | Hawl Aelod Unigol mewn cyfarfodydd y Cabinet. | Mae cyfarfodydd y Cabinet yn gyfarfodydd cyhoeddus, ac felly mae gan Aelod Unigol hawl i fod yn bresenol. Gwahoddir yr aelod lleol i fod yn bresenol ar faterion lleol. Mae rhaglenni y Cabinet yn cael eu dosbarthu trwy 'linc' i'r holl aelodau. | Cyfrifoldeb y tim Cabinet i adnabod aelodau lleol ar gyfer eitemau lleol a chyfrifoldeb yr aelod lleol i sicrhau ei f(b)od yn ymwybodol o gynnwys rhaglen y Cabinet. | Nid oes angen diweddariad – adroddwyd eisoes. |

**C.  Cefnogaeth i aelodau Craffu a phwyllgorau eraill**

| Cyf | Beth i'w ddisgwyl? | Sut? | Gan bwy? | Diweddariad Ebrill 2013 |
|---|---|---|---|---|
| 11 | Cyngor ac arweiniad annibynnol i'r Cadeiryddion ac aelodau'r Pwyllgorau Craffu | Cynghori'r Pwyllgorau Craffu ar eu rhaglen waith, cynnal cyfarfodydd paratoi a chynghori ar y rhaglen waith fyw gan gynnwys herio cynnydd a dal y Cabinet i gyfrif, a sicrhau fod craffu yn ychwanegu gwerth. | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol a'r tim o fewn Strategol a Gwella. | Mae'r tri Pwyllgor Craffu wedi derbyn hyffoddiant ar eu rôl, ac wedi bod yn derbyn cyngor ac arweiniad annibynnol parhaus yn y misoedd ers eu sefydlu. Gan fod rôl y pwyllgorau wedi newid, mae wedi cymeryd rhywfaint o amser i ymsefydlu.<br><br>Noder, yn ddiweddar y bu i Swyddfa Archwilio Cymru hwyluso archwiliad cymhreiriaid i wella Craffu yng Nghymru. Fel rhan o'r gwaith, bu i dîm o Gonwy arsylwi dau bwyllgor Craffu yng Ngwynedd, a chafwyd sylwadau cychwynnol cadarnhaol ganddynt ar weithrediad y pwyllgorau craffu hynny. Bydd adroddiad llawn gan y tim arsylwi i ddilyn.<br><br>Yn ogystal, mae'r Fforwm Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu wedi ei ffurfioli ac wedi sefydlogi, gyda gwahoddiad hefyd i Gadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i fynychu'r trafodaethau. Mae'r fforwm yn ystyried rhaglen waith a meysydd o flaenoriaeth ar draws y Pwyllgorau i gyd. |
| 12 | Gweinyddu a chofnodi | Trefnu a chofnodi yn gryno argymhellion | Aelodau'r Pwyllgor Craffu perthnasol, | Mae gweinyddu a chofnodi cyfarfodydd wedi mynd rhagddo yn llwyddiannus dros y flwyddyn |

| Cyf | Beth i'w ddisgwyl? | Sut? | Gan bwy? | Diweddariad Ebrill 2013 |
|---|---|---|---|---|
| | cyfarfodydd (craffu ac eraill), a chyhoeddi'r cofnodion | gan y Pwyllgor Craffu ar y mater dan sylw i'w cyflwyno i'r Arweinydd Portffolio perthnasol. Cofnodion cryno o bwyllgorau eraill hefyd. | gyda chefnogaeth gan yr Adran Strategol a Gwella. | diwethaf, gyda'r cofnodion wedi eu cyhoeddi ar safle we y Cyngor.<br><br>Noder fod gwaith moderneiddio wedi digwydd yn Siambr Dafydd Orwig, a gwaith wrthi'n mynd rhagddo yn Siambr Hywel Dda. Mae'r system sain a chyfieithu wedi gwella yn aruthrol yn Siambr Dafydd Orwig, a'r system bleidleisio newydd yn fwy hwylus i'w defnyddio. Mae'r gwaith moderneiddio yn ein paratoi ymhellach ar gyfer gofynion y dyfodol ynghylch gwe-ddarlledu. |
| 13 | Ymchwiliadau Craffu i edrych ar effaith polisiau ar lawr gwlad (sef ymchwilio mewn manylder i bwnc penodol. Ymchwiliad cychwyn a gorffen. | Cyfres o gyfarfodydd o fewn cyfnod penodol, gydag aelodau'r ymchwiliad i raglennu a chyflawni'r ymchwiliad manwl (trwy ymchwil ac ymweliadau) gan gyflwyno argymhellion penodol i'r Aelod Cabinet. | Aelodau Pwyllgorau Craffu wedi eu cefnogi gan yr Uned Gwasanaeth Democrataidd, a'r Uned Perfformiad ac Effeithlonrwydd o fewn Adran Strategol a Gwella. | Mae dau ymchwiliad craffu 'cychwyn a gorffen' eisoes wedi adrodd i'r Pwyllgorau Craffu, gyda'r argymhellion wedi eu cyflwyno i'r Aelod Cabinet perthnasol. Y ddau archwiliad sydd eisoes wedi adrodd yw<br>• Meddylfryd Systemau, (Pwyllgor Craffu Corfforaethol)<br>• Ymchwiliad Craffu Tai (Pwyllgor Craffu Cymunedau)<br>Mae'r aelodau a'r swyddogion hefyd wedi cynnal sesiwn i ddysgu gwersi ar ol y ddau ymchwiliad uchod er mwyn ceisio eu gwella i'r dyfodol.<br><br>Mae meysydd eraill wedi eu hadnabod ar gyfer ymchwiliadau nesaf gan y Craffwyr, sef maes agenda wledig, Balchder Bangor a Chaffael gan y Cyngor. |

| Cyf | Beth i'w ddisgwyl? | Sut? | Gan bwy? | Diweddariad Ebrill 2013 |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Yn ogystal, mae ymchwiliad a gomisiynwyd gan yr Aelod Cabinet perthnasol hefyd wrthi'n mynd rhagddo yn gyfredol i faes ansawdd addysg a disgwylir iddo adrodd i'r aelod cabinet yn fuan. |

**Ch. Cefnogaeth i'r holl aelodau – gweinyddol, ymarferol a datblygol**

| Cyf | Beth i'w ddisgwyl? | Sut? | Gan bwy? | Diweddariad Ebrill 2013 |
|---|---|---|---|---|
| 14 | Cefnogaeth weinyddol i'r grwpiau gwleidyddol, megis trefnu cyfarfodydd, cofnodi, gwasanaeth teipio llythyrau, llun-gopio a chyd-gordio ymateb gan y blaid a gefnogir | Mae'r Cymorthyddion Gwleidyddol ar gael i'r tri prif blaid am oriau penodedig yr wythnos yn unol â phenderfyniad y Cyngor Llawn ar 17/05/2012. . | Cymorthyddion Gwleidyddol a chefnogaeth bellach gan yr Adran Strategol a Gwella (drwy drefnu gyda'r Rheolwr Aelodau – Cefnogi a Chraffu, Gareth James). | Mae cefnogaeth weinyddol i'r grwpiau gwleidyddol yn cael ei weithredu yn unol â'r hyn a benderfynwyd gan y Cyngor llawn ym mis Mai 2012. |
| 15 | Gweinyddu, prosesu a thalu cyflogau a chostau teithio yr holl aelodau yn amserol. | Ffurflenni hawlio costau teithio wedi eu dosbarthu eisoes. Mae canllawiau newydd clir a syml wrthi'n cael eu | Adran Strategol a Gwella yn cyd-lynu'r gwaith. | Mae trefniadau gweinyddu, prosesu a thalu cyflogau a chostau teithio yn mynd rhagddynt yn gywir ac amserol gan gydymffurfio gyda chanllawiau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Mae canllawiau hawlio ar y we. |

| Cyf | Beth i'w ddisgwyl? | Sut? | Gan bwy? | Diweddariad Ebrill 2013 |
|---|---|---|---|---|
| | | datblygu nawr. | | Noder y derbyniwyd adroddiad annibynnol gan Archwilio Mewnol i gadarnhau fod y trefniadau newydd, cyfredol yn gywir, ond fod lle i atgoffa aelodau i gyflwyno eu ceisiadau yn fisol yn unol â'r cyfarwyddyd. |
| 16 | Adroddiadau blynyddol gan aelodau etholedig | Adran 5 Mesur Llywodraeth Leol (2011) yn nodi'r angen i gyflwyno adroddiadau blynyddol. Disgwylir canllawiau pellach ar yr angen i aelodau fod yn cynhyrchu adroddiadau blynyddol, ond ar hyn o bryd deallir fod yn angenrheidiol i'r Cyngor sicrhau fod cefnogaeth mewn lle i gynorthwyo aelodau i gynghyrchu adroddiad blynyddol. | Holl aelodau (disgwyl cadarnhad) gyda chymorth swyddogion o Strategol a Gwella. Argymhellir fod aelodau yn cadw cofnod o'r hyn y maent yn ei gyflawni yn awr. | Noder fod y canllawiau yn ei gwneud yn ofynol i'r Cyngor wneud trefniadau i alluogi aelodau etholiedig unigol i gyhoeddi adroddiad blynyddol, ond nad oes gorfodaeth ar unrhyw aelod i baratoi adroddiad o'r fath.<br><br>Penderfynodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gynnal peilot o'r drefn am eleni er mwyn dysgu gwersi o'r fformat gorau i'w ddefnyddio, a galluogi'r Cyngor i sefydlu y gefnogaeth briodol ar gyfer yr aelodau etholedig oedd yn dymuno cynhyrchu adroddiadau i'r dyfodol.<br><br>Bydd yr adroddiadau o'r peilot yn cael eu cyhoeddi ar safle we'r Cyngor erbyn diwedd Mehefin yn unol â'r gofyn. |
| 17 | Hyfforddiant – rhaglen lawn o hyfforddiant - rhaglen gyffredinol ar | Cyfres o sesiynau hyfforddiant rhaglenedig trwy ddarpariaeth mewnol neu allanol. | Datblygiadau i'r Cabinet dan Arweiniad yr Aelod Cabinet | Ffurfiwyd is-grwp o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i edrych yn benodol ar y maes hwn, yn hytrach na gyrru holiadur allan at yr holl aelodau. Fe lwyddodd yr is-grwp traws-bleidiol oedd yn gyfuniad o aelodau newydd a mwy |

